## Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD

**Dyddiad: 9 Mawrth 2000**

**Lleoliad:Ystafell Pwyllgor 1**

**Teitl: Y Gynhadledd Ryng-lywodraethol**

**Amser: 9.30-12.30**

### Diben

Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch y Gynhadledd Rynglywodraethol, a thynnu sylw'r Pwyllgor at faterion sy'n debygol o fod yn berthnasol i Gymru.

### Argymhelliad

Nodi cynnwys yr adroddiad.

### Cefndir

Mae Cynhadledd Rynglywodraethol yn fodd i'r Undeb Ewropeaidd ystyried diwygiadau i'r Cytundebau sy'n sefydlu'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd ar lefel Gweinidogol a swyddogol, dros gyfnod o oddeutu blwyddyn.

Y prif reswm dros gynnal y Gynhadledd Rynglywodraethol hon ar hyn o bryd yw er mwyn paratoi sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y blynyddoedd nesaf pan ddisgwylir i wledydd eraill ymuno. Cafodd y sefydliadau eu cynllunio'n wreiddiol ar gyfer chwech aelod-wladwriaeth, ac mae'r pwerau wedi cael eu newid yn raddol dros y blynyddoedd wrth i fwy o wledydd ymuno. Mae angen rhagor o newidiadau oherwydd mae'n bosibl y bydd yr Undeb Ewropeaidd yn tyfu o 15 aelod i 28 dros y degawd nesaf.

### Y Gynhadledd Rynglywodraethol

Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cytuno i ganolbwyntio ar dri mater:

- **Maint a chyfansoddiad y Comisiwn** – ar hyn o bryd mae hawl gan bob aelod-wladwriaeth i enwebu Comisiynydd, ac mae'r aelod-wladwriaethau mwyaf yn enwebu dau. Felly mae'r Comisiwn wedi cynyddu o ran maint dros y blynyddoedd a byddai'n rhy fawr pe bai'r arfer hwn yn parhau wedi iddo ehangu. Felly bydd y Gynhadledd Rynglywodraethol yn bwrw golwg ar ddulliau o gyfyngu ar faint y Comisiwn fel bod modd iddo weithio yn effeithiol
- **Ailbwyso pleidleisiau yng Nghyngor y Gweinidogion –** o dan y trefniadau presennol mae gan wledydd mawr mwy o bleidleisiau, ond mae gan wledydd bach gyfran uwch o bleidleisiau o'i gymharu â'u poblogaeth. Mae

poblogaeth y rhan fwyaf o’r gwledydd sydd am ymuno yn fach, a bydd hyn yn cael effaith ar gydbwysedd y pleidleisiau o fewn Cyngor y Gweinidogion. Mae bwriad i ailbwyso pleidleisiau o blaid aelod-wladwriaethau mawr, a fydd yn eu tro yn cytuno i leihau nifer eu Comisiynwyr.

- **Y Posibilrwydd o ymestyn y pleidleisio mwyafrifol cymwys –** hyd y 1980au roedd y rhan fwyaf o benderfyniadau yn cael eu gwneud yn unfrydol, er bod darpariaeth ar gyfer pleidleisio mwyafrifol cymwys. Wrth i aelodaeth y Cymunedau Ewropeaidd dyfu roedd hi’n mynd yn anoddach i Gyngor y Gweinidogion wneud penderfyniadau, a daeth pleidleisio mwyafrifol cymwys yn norm a chafodd hyn ei ymestyn i ystod o feysydd polisi gan y Ddeddf Ewropeaidd Sengl. Bwriedir ymestyn pleidleisio mwyafrifol cymwys i feysydd eraill er mwyn osgoi anawsterau wrth ddod i benderfyniadau wedi i’r Undeb ehangu.

Mae rhai Sefydliadau Ewropeaidd yn awyddus i ehangu cwmpas y Gynhadledd Rynglywodraethol, a chaiff rhai materion eu trafod yn gyfochrog â’r Gynhadledd Rynglywodraethol, tra bydd eraill yn deillio fel rhan o’r trafodaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Diwygio Llys Iawnderau Ewrop
- Diwygio Llys Archwilwyr Ewrop
- Cydbenderfynu, a fyddai’n ymestyn pwerau Senedd Ewrop
- Cyfrifoldebau ac atebolrwydd Comisiynwyr annibynnol
- Nifer y seddi yn Senedd Ewrop
- Cyfansoddiad y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol a Phwyllgor y Rhanbarthau
- Hyblygrwydd, a fyddai’n symleiddio’r trefniadau ar gyfer datblygu integreiddiad Ewropeaidd ymhellach heb fod angen o angenrheidrwydd Gynadleddau Rhynglywodraethol llawn a diwygio’r Cytundebau

**Y Goblygiadau i Gymru**

Nid yw’n debygol y bydd gan yr un o’r tri mater ar agenda’r Cynadleddau Rhynglywodraethol oblygiadau uniongyrchol i Gymru. Fodd bynnag, bydd y mân newidiadau i’r sefydliadau yn cael peth effaith anuniongyrchol ar y modd y bydd Taleithiau a Rhanbarthau yn dylanwadu ar y broses o lunio polisïau. Daw’n fwy fwy pwysig i ddylanwadu ar gynigion polisi yr Undeb Ewropeaidd yn gynnar, ac i weithredu deddfwriaeth Ewropeaidd yn effeithiol.

Pe bai’r Gynhadledd Rynglywodraethol yn trafod y nifer o seddi yn Senedd Ewrop, byddai gan hyn effaith uniongyrchol ar Gymru. Mae Senedd Ewrop eisoes wedi cynyddu o ran maint dros y blynyddoedd wrth i aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd gynyddu, ac ni all barhau i ymestyn yn ddi-ben-draw a pharhau i fod yn effeithiol. Mae’n debygol y bydd hyn yn cael ei drafod rywbryd yn ystod y blynyddoedd nesaf, hyd yn oed os na chaiff sylw uniongyrchol yn y Gynhadledd Rynglywodraethol hon. Mae’n bosibl y caiff maint Pwyllgor y Rhanbarthau a’r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol eu heffeithio gan drafodaethau o’r fath.

**Casgliad**

Mae’r Undeb Ewropeaidd wedi cytuno ar amserlen gyda’r bwriad o gwblhau’r trafodaethau o fewn y Gynhadledd Rynglywodraethol erbyn diwedd 2000, gyda’r broses o gadarnhau’r newidiadau i’r Cytundebau gan Aelod-wladwriaethau yn cymryd lle yn ystod 2001. Y nod yw sicrhau bod yr holl newidiadau mewn lle erbyn 2002 gan mai dyma’r dyddiad cynharaf y gall y gwledydd sydd am ymuno â’r Undeb wneud hynny.

Bydd y Cynulliad yn monitro’r trafodaethau o fewn y Gynhadledd Rynglywodraethol a bydd yn dwyn unrhyw gynigion sy’n debygol o gael effaith ar Gymru i sylw’r Pwyllgor.

## Cydymffurfio

O dan Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 gall y Cynulliad ystyried a gwneud cynrychioliadau priodol ynghylch unrhyw fater sy’n effeithio ar Gymru.

## Pwynt Cyswllt

Yr Adran Materion Ewropeaidd